ATODLEN 7 Rheoliad 2(3)

Manyleb neithdar ffrwythau

# RHAN 1

## Manyleb gyffredinol neithdar ffrwythau

**1.** Neithdar ffrwythau yw'r cynnyrch eplesadwy ond heb ei eplesu a geir drwy ychwanegu dŵr at sudd a restrwyd ym mharagraff 2 naill ai gydag un o'r sylweddau a restrir ym mharagraff 3 neu hebddynt.

**2.** Dyma'r suddoedd—

(a) sudd ffrwythau;

(b) sudd ffrwythau o ddwysfwyd;

(c) sudd ffrwythau wedi ei ddwysáu;

(d) sudd ffrwythau y tynnwyd dŵr ohono;

(e) sudd ffrwythau dadhydredig;

(f) sudd ffrwythau powdr;

(g) piwrî ffrwythau;

(h) piwrî ffrwythau wedi ei ddwysáu; neu

(i) unrhyw gymysgedd o'r cynhyrchion a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (h).

**3.** Dyma'r sylweddau—

(a) siwgrau, a

(b) mêl.

**4.** Rhaid i swm y siwgrau neu'r mêl, neu'r siwgrau a'r mêl, a ychwanegir at y cynnyrch yn unol â pharagraff 1 beidio â bod yn fwy nag 20% o gyfanswm pwysau'r cynnyrch gorffenedig.

**5.** Rhaid i'r cynnyrch gynnwys yr isafswm cynnwys sudd ffrwythau, piwrî ffrwythau, neu gymysgedd o'r sudd hwnnw a'r piwrî hwnnw, a bennir yn Rhan 2.

**6.** Pan fo'r cynnyrch yn cael ei weithgynhyrchu heb siwgr ychwanegol neu â gwerth egni gostyngedig, caniateir i siwgrau gael eu disodli'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan felysyddion yn unol â gofynion Rheoliad 1333/2008.

**7.** Yn ychwanegol at y cynhwysion a grybwyllir ym mharagraffau 1, 2, 3, 5 a 6, caiff y cynnyrch gynnwys unrhyw rai o'r canlynol—

(a) cynhwysyn ychwanegol awdurdodedig;

(b) sylwedd ychwanegol awdurdodedig;

(c) cyflas, mwydion a chelloedd wedi eu hadfer (neu unrhyw un neu fwy ohonynt) a gafwyd drwy ddull ffisegol addas o'r un rhywogaeth o ffrwyth; a

(d) melysyddion (y caniateir eu hychwanegu ar ben unrhyw siwgr neu fêl a ychwanegir yn unol â pharagraff 1 fel y'i darllenir gyda pharagraff 3).

**8.** Ni chaniateir defnyddio triniaeth, ac eithrio triniaeth awdurdodedig, wrth weithgynhyrchu cynnyrch.

# RHAN 2

## Cynnwys gofynnol sudd a phiwrî mewn neithdarau ffrwythau

| *Neithdarau ffrwythau a wnaed o* | *Isafswm cynnwys sudd, piwrî neu sudd a phiwrî (% yn ôl cyfaint y cynnyrch gorffenedig)* |
|---|---|
| **1. Neithdarau ffrwythau a wnaed o ffrwythau â sudd asidig sy'n annymunol yn y cyflwr naturiol** | |
| Bricyll | 40 |
| Llus | 40 |
| Mwyar duon | 40 |
| Cyrains duon | 25 |
| Llugaeron | 30 |
| Eirin ysgaw | 50 |
| Eirin Mair | 30 |
| Lemonau a leimiau | 25 |
| Mwyar Mair | 40 |
| Ffrwyth y dioddefaint | 25 |
| Eirin | 30 |
| Quetsches | 30 |
| Afalau cwins | 50 |
| Quito naranjillos | 25 |
| Mafon | 40 |
| Cyrains cochion | 25 |
| Egroes | 40 |
| Criafol | 30 |
| Aeron helygen y môr | 25 |
| Eirin tagu | 30 |
| Ceirios sur | 35 |
| Ceirios eraill | 40 |
| Mefus | 40 |
| Cyrains gwynion | 25 |
| Ffrwythau eraill sy'n perthyn i'r categori hwn | 25 |
| **2. Ffrwythau asid-isel, mwydionog neu gryf eu blas sydd â sudd sy'n annymunol yn y cyflwr naturiol** | |
| Azeroles (Merys Neapolitanaidd) | 25 |
| Bananas | 25 |

| *Neithdarau ffrwythau a wnaed o* | *Isafswm cynnwys sudd, piwrî neu sudd a phiwrî (% yn ôl cyfaint y cynnyrch gorffenedig)* |
|---|---|
| Afalau cwstard | 25 |
| Ffrwythau cashiw | 25 |
| Gwafas | 25 |
| Lytshis | 25 |
| Mangos | 25 |
| Papaias | 25 |
| Pomgranadau | 25 |
| Micasau sur | 25 |
| Eirin Sbaen | 25 |
| Afalau siwgr | 25 |
| Wmbw | 25 |
| Ffrwythau eraill sy'n perthyn i'r categori hwn | 25 |
| **3. Ffrwythau sydd â sudd sy'n ddymunol yn y cyflwr naturiol** | |
| Afalau | 50 |
| Ffrwythau sitrws ac eithrio lemonau a Leimiau | 50 |
| Eirin gwlanog | 50 |
| Gellyg | 50 |
| Pinafalau | 50 |
| Tomatos | 50 |
| Ffrwythau eraill sy'n perthyn i'r categori hwn | 50 |